LEFEL 2

MEINI PRAWF CYMERADWYO

Sylfaen mewn Peirianneg Adeiladu a Gwasanaethau Adeiladu

RHAGFYR 2020

Sylfaen mewn Peirianneg Adeiladu a Gwasanaethau Adeiladu

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r meini prawf cymeradwyo ar gyfer y cymhwyster Sylfaen mewn Peirianneg Adeiladu a Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2). Datblygwyd y rhain trwy ymgysylltu â rhanddeiliaid, a oedd yn cynnwys grwpiau ffocws ac arolygon ar-lein. Mae'r meini prawf cymeradwyo hyn yn cynnwys y gofynion y mae'n rhaid i'r corff dyfarnu eu bodloni wrth ddatblygu'r fanyleb a'r deunyddiau asesu ar gyfer y Sylfaen mewn Peirianneg Adeiladu a Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2).

Ym mis Ebrill 2019, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru benderfyniad i gyfyngu cyfres newydd o gymwysterau mewn peirianneg adeiladu a gwasanaethau adeiladu ar gyfer addysgu ar raglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru. Mae'r gyfres hon yn cynnwys y Sylfaen mewn Peirianneg Adeiladu a Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2).

Cyfyngir yr holl gymwysterau yn y gyfres i un ffurf yn unig am gyfnod o saith mlynedd o 1 Medi 2021. Mae hyn yn golygu mai dim ond un corff dyfarnu all ddyfarnu pob cymhwyster. Yn dilyn proses gaffael deg a thryloyw a gynhaliwyd rhwng Hydref 2018 a Mehefin 2019, mae Cymwysterau Cymru wedi creu contract gyda chonsortiwm o City and Guilds London Institute ac EAL i ddatblygu a chyflwyno'r cymwysterau newydd.

Ni fydd Cymwysterau Cymru yn cymeradwyo cymhwyster oni bai ei fod yn cwrdd â'r holl ofynion a nodir yn y ddogfen hon ynghyd â'r rhai a nodir yn yr *Amodau Cydnabod Safonol*. Wrth ddatblygu cymwysterau i fodloni'r gofynion hyn, rhaid i gyrff dyfarnu roi sylw i *Fynediad Teg trwy Ddylunio*. Rhaid i'r corff dyfarnu a gomisiynir hefyd fodloni'r holl ofynion a nodir yn y *contract consesiynau* a ddyfernir yn ystod camau datblygu, cymeradwyo, gweithredu a chyflawni'r cymwysterau.

Pan fydd gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo Pynciau a nodir yn y ddogfen hon yn wahanol i'r rhai a ragnodir yn yr *Amodau Cydnabod Safonol*, bydd y gofynion yn y ddogfen hon yn cael blaenoriaeth.

Pwrpas

Dyluniwyd y cymhwyster hwn i'w gyflwyno fel cymhwyster ôl-16 a fydd yn brif bwynt mynediad i ddysgwyr sy'n dymuno cychwyn ar eu taith tuag at rôl alwedigaethol mewn crefft beirianneg adeiladu neu wasanaethau adeiladu. Mae'n cynnig cyflwyniad eang i'r sector i ddysgwyr, gan ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r sector, gan gynnwys cylch bywyd yr amgylchedd adeiledig, y crefftau a'r rolau o'i fewn a'r cyd-ddibyniaethau rhwng pobl sy'n cyflawni'r rolau hynny.

Mae'r cymhwyster hwn wedi'i gynllunio i ddechrau datblygu sgiliau dysgwyr mewn dau faes masnach, gan gynnwys cynllunio, perfformio a gwerthuso tasgau cyffredin. Dylai dysgwyr sy'n cymryd y cymhwyster hwn ddechrau datblygu gallu i gyflawni tasgau mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo a chynnal eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain, a rhai pobl eraill, a byddant hefyd yn dechrau datblygu sgiliau cyflogadwyedd trosglwyddadwy a fydd yn berthnasol i'w gwaith yn y dyfodol, p'un ai yn y sector adeiladu a'r amgylchedd adeiledig neu unrhyw sector arall.

Dyluniwyd y cymhwyster i arfogi dysgwyr â dealltwriaeth eang, drawsbynciol o'r sector a gallu gwneud penderfyniadau gwybodus am eu dilyniant eu hunain. Fe'i cynlluniwyd yn bennaf i'w gymryd fel rhaglen ddysgu llawn amser sydd fel arfer yn cael ei darparu dros flwyddyn mewn addysg bellach.

Strwythur y cymhwyster

1. Rhaid i fanyleb y Sylfaen mewn Peirianneg Adeiladu a Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2) gynnig ardystiad cymhwyster o 540 Awr Dysgu dan Arweiniad (GLH) i ddysgwyr a bydd angen ei ddiffinio yn nhermau Cyfanswm yr Amser Cymhwyso (TQT) a chredyd.

2. Rhaid i deitl y cymhwyster ar QiW fod fel a ganlyn:

    2.1. Sylfaen mewn Peirianneg Adeiladu a Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2)

Nodau ac amcanion y pwnc

3. Rhaid i fanyleb y Sylfaen mewn Peirianneg Adeiladu a Gwasanaethau Adeiladu alluogi dysgwyr i ddechrau datblygu eu:

    3.1. dealltwriaeth o'r adeiladau a'r strwythurau sy'n ffurfio'r amgylchedd adeiledig a sut maent yn newid, ac wedi newid, dros amser;
    3.2. dealltwriaeth o'r crefftau, rolau a gyrfaoedd yn y sector adeiladu a'r amgylchedd adeiledig;
    3.3. dealltwriaeth o gylch bywyd adeiladau a strwythurau yn yr amgylchedd adeiledig a'r egwyddorion a'r prosesau cysylltiedig ar bob cam;
    3.4. dealltwriaeth o gynaliadwyedd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol fel sy'n briodol i adeiladu a'r amgylchedd adeiledig;
    3.5. gwybodaeth am dechnolegau sy'n dod i'r amlwg yn y sector adeiladu a'r amgylchedd adeiledig;
    3.6. sgiliau cyflogadwyedd a'u dealltwriaeth o sut mae'r rhain yn berthnasol i'r gweithle yn y sector adeiladu a'r amgylchedd adeiledig ac yn bwysig ynddo;

3.7. gwybodaeth am egwyddorion gweithio mewn ffyrdd sy'n amddiffyn iechyd, diogelwch, lles a'r amgylchedd a'r gallu i gymhwyso hynny;

3.8. gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n ofynnol wrth gynllunio, perfformio a gwerthuso tasgau ymarferol cyffredin mewn o leiaf ddwy grefft yn y sector adeiladu a'r amgylchedd adeiledig.

Cynnwys y pwnc

4. Rhaid i gynnwys manyleb y Sylfaen mewn Peirianneg Adeiladu a Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2) adlewyrchu nodau ac amcanion y pwnc.

5. Rhaid i fanyleb y Sylfaen mewn Peirianneg Adeiladu a Gwasanaethau Adeiladu gynnwys y cynnwys fel yr amlinellir ef ym Meysydd Dysgu 1-8.

Maes Dysgu 1: Cyflwyniad i'r Amgylchedd Adeiledig

Maes Dysgu 2: Cyflwyniad i'r Crefftau yn y Sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig

Maes Dysgu 3: Cyflwyniad i Gylch Bywyd yr Amgylchedd Adeiledig

Maes Dysgu 4: Cyflogadwyedd yn y Sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig

Maes Dysgu 5: Amddiffyn Iechyd, Diogelwch a Lles, a'r Amgylchedd, wrth weithio yn y Sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig

Maes Dysgu 6: Cyflwyniad i Dechnolegau Modern yn y Sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig

Maes Dysgu 7: Profiad Crefft Cyntaf yn y Sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig

Maes Dysgu 8: Ail Brofiad Crefft yn y Sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig.

6. Rhaid i fanyleb y Sylfaen mewn Peirianneg Adeiladu a Gwasanaethau Adeiladu sicrhau bod gofyn i ddysgwyr ddewis profiadau o wahanol grefftau o faes dysgu 7 a maes dysgu 8.

Maes Dysgu 1 - Cyflwyniad i'r Amgylchedd Adeiledig

7. Rhaid i fanyleb y Sylfaen mewn Peirianneg Adeiladu a Gwasanaethau Adeiladu sicrhau bod dysgwyr yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o:

7.1. fathau a dibenion adeiladau yn yr amgylchedd adeiledig gan gynnwys sut maent yn newid ac wedi newid dros amser;
7.2. mathau a dibenion strwythurau yn yr amgylchedd adeiledig gan gynnwys sut maent yn newid ac wedi newid dros amser.

Maes Dysgu 2 - Cyflwyniad i Grefftau Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig

8. Rhaid i fanyleb y Sylfaen mewn Peirianneg Adeiladu a Gwasanaethau Adeiladu sicrhau bod dysgwyr yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o:

8.1. brif feysydd galwedigaethol adeiladu;
8.2. prif feysydd galwedigaethol peirianneg y gwasanaethau adeiladu;
8.3. ffyrdd y mae crefftau'n dibynnu ar ei gilydd;
8.4. y sgiliau traddodiadol a ddefnyddir yn y sector adeiladu a'r amgylchedd adeiledig.

Maes Dysgu 3 - Cyflwyniad i Gylch Bywyd yr Amgylchedd Adeiledig

9. Rhaid i fanyleb y Sylfaen mewn Peirianneg Adeiladu a Gwasanaethau Adeiladu sicrhau bod dysgwyr yn dechrau datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o:

9.1. ddyluniad adeiladau a strwythurau;
9.2. y broses gynllunio;
9.3. prif gamau adeiladu a gosod gwasanaethau;
9.4. marchnata a gwerthu gwasanaethau yn y sector adeiladu a'r amgylchedd adeiledig
9.5. cynnal a chadw adeiladau, strwythurau a gwasanaethau wedi'u gosod;
9.6. dymchwel a dadadeiladu adeiladau a strwythurau;
9.7. newid defnydd adeiladau a strwythurau.

Maes Dysgu 4 - Cyflogadwyedd yn y Sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig

10. Rhaid i fanyleb y Sylfaen mewn Peirianneg Adeiladu a Gwasanaethau Adeiladu ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ddatblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau o'r canlynol:

    10.1. rolau swyddi, cyfleoedd a chyflogaeth;
    10.2. sgiliau cyflogadwyedd;
    10.3. economeg sylfaenol busnes.

Maes Dysgu 5 - Amddiffyn Iechyd, Diogelwch a Lles, a'r Amgylchedd, wrth weithio yn y Sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig

11. Rhaid i fanyleb y Sylfaen mewn Peirianneg Adeiladu a Gwasanaethau Adeiladu ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ddatblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau o'r canlynol:

    11.1. y gofynion allweddol ar gyfer gweithio'n ddiogel ar safleoedd;
    11.2. y technegau a'r gefnogaeth sydd ar gael i gadw'n ddiogel yn y gwaith;
    11.3. gofynion diogelwch adeiladau;
    11.4. y gofynion allweddol ar gyfer diogelu'r amgylchedd wrth weithio ar safleoedd.

Maes Dysgu 6 - Cyflwyniad i Dechnolegau Modern yn y Sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig

12. Rhaid i fanyleb y Sylfaen mewn Peirianneg Adeiladu a Gwasanaethau Adeiladu ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o:

    12.1. egwyddorion sylfaenol a'r defnydd o Fodelu Gwybodaeth Adeiladu (BIM);
    12.2. defnyddio argraffu 3D;
    12.3. cyn-weithgynhyrchu;
    12.4. technolegau efelychu digidol;
    12.5. datblygiadau allweddol mewn technolegau deunyddiau.

Maes Dysgu 7 - Profiad Crefft Cyntaf mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig

13. Rhaid i fanyleb y Sylfaen mewn Peirianneg Adeiladu a Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2) gynnig cyfle i ddysgwyr ddewis un o'r meysydd crefft canlynol:

    a. Gweithio gyda brics, blociau a cherrig
    b. Galwedigaethau pren
    c. Galwedigaethau gorffen addurniadol a phaentio diwydiannol
    d. Teilsio waliau a lloriau
    e. Plastro a systemau mewnol
    f. Plymio, gwresogi ac awyru
    g. Galwedigaethau toi
    h. Systemau ac offer electrodechnegol
    i. Gweithrediadau adeiladu a gweithrediadau peirianneg sifil
    j. Gweithrediadau peiriannau.

14. Rhaid i fanyleb y Sylfaen mewn Peirianneg Adeiladu a Gwasanaethau Adeiladu sicrhau bod dysgwyr yn dechrau datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o:

    14.1. yr egwyddorion sylfaenol sy'n llywio gwaith crefftwyr yn y maes hwn;
    14.2. y derminoleg crefft-benodol sy'n gysylltiedig â'r maes crefft;
    14.3. y gofynion ar gyfer cyflawni tasgau cyffredin yn y maes crefft;
    14.4. y cynlluniau a'r ddogfennaeth sy'n ofynnol wrth gyflawni tasgau cyffredin yn y maes crefft hwn, gan gynnwys dogfennau deddfwriaethol perthnasol, asesiadau risg, datganiadau dull, manylebau, lluniadau a chyfarwyddiadau a ddarperir gan wneuthurwyr;
    14.5. sut i werthuso perfformiad wrth gyflawni tasgau cyffredin yn y maes crefft hwn mewn perthynas â'r gofynion penodol a'u meini prawf llwyddiant eu hunain.

15. Rhaid i fanyleb y Sylfaen mewn Peirianneg Adeiladu a Gwasanaethau Adeiladu sicrhau bod dysgwyr yn dechrau datblygu eu sgiliau mewn:

    15.1. cyflawni tasgau cyffredin (i'w nodi gan y corff dyfarnu) yn y maes crefft hwn;
    15.2. defnyddio'r offer, y deunyddiau a'r technolegau cywir sy'n ofynnol yn gyffredin yn y maes crefft hwn;
    15.3. cyflawni tasgau mewn ffordd sy'n hybu eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain a diogelwch eraill;
    15.4. darllen a dehongli cynlluniau a dogfennaeth gyffredin sy'n ofynnol wrth gyflawni tasgau cyffredin yn y maes crefft hwn, gan gynnwys dogfennau

deddfwriaethol perthnasol, asesiadau risg, datganiadau dull, manylebau, lluniadau a chyfarwyddiadau a ddarperir gan wneuthurwyr;

15.5. cynllunio'r gwaith o gwblhau tasgau cyffredin yn y maes crefft hwn, gan ddefnyddio'r sgiliau llythrennedd a rhifedd gofynnol, a'r sgiliau lluniadu, i wneud hynny;

15.6. gosod meini prawf perfformiad ar gyfer cwblhau tasgau cyffredin yn y maes crefft hwn;

15.7. gwerthuso perfformiad eu gwaith wrth gyflawni tasgau cyffredin yn y maes crefft hwn mewn perthynas â'r gofynion penodol a'u meini prawf llwyddiant eu hunain.

Maes Dysgu 8 - Ail Brofiad Crefft mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig

16. Rhaid i fanyleb y Sylfaen mewn Peirianneg Adeiladu a Gwasanaethau Adeiladu gynnig cyfle i ddysgwyr ddewis un o'r meysydd crefft canlynol:

a. Gweithio gyda brics, blociau a cherrig
b. Galwedigaethau pren
c. Galwedigaethau gorffen addurniadol a phaentio diwydiannol
d. Teilsio waliau a lloriau
e. Plastro a systemau mewnol
f. Plymio, gwresogi ac awyru
g. Galwedigaethau toi
h. Systemau ac offer electrodechnegol
i. Gweithrediadau adeiladu a gweithrediadau peirianneg sifil
j. Gweithrediadau peiriannau.

17. Rhaid i fanyleb y Sylfaen mewn Peirianneg Adeiladu a Gwasanaethau Adeiladu sicrhau bod dysgwyr yn dechrau datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r:

17.1. yr egwyddorion sylfaenol sy'n llywio gwaith crefftwyr yn y maes hwn;
17.2. y derminoleg crefft-benodol sy'n gysylltiedig â'r maes crefft;
17.3. y gofynion ar gyfer cyflawni tasgau cyffredin yn y maes crefft;
17.4. sut i ddarllen a dehongli cynlluniau a dogfennaeth gyffredin sy'n ofynnol wrth gyflawni tasgau cyffredin yn y maes crefft hwn, gan gynnwys dogfennau deddfwriaethol perthnasol, asesiadau risg, datganiadau dull, manylebau, lluniadau a chyfarwyddiadau a ddarperir gan wneuthurwyr;

17.5. sut i werthuso perfformiad wrth gyflawni tasgau cyffredin yn y maes crefft hwn mewn perthynas â'r gofynion penodol a'u meini prawf llwyddiant eu hunain.

18. Rhaid i fanyleb y Sylfaen mewn Peirianneg Adeiladu a Gwasanaethau Adeiladu sicrhau bod dysgwyr yn dechrau datblygu eu sgiliau mewn:

18.1. cyflawni tasgau cyffredin yn y maes crefft hwn;
18.2. defnyddio'r offer, y deunyddiau a'r technolegau cywir sy'n ofynnol yn gyffredin yn y maes crefft hwn;
18.3. cyflawni tasgau mewn ffordd sy'n hybu eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain a diogelwch eraill;
18.4. darllen a dehongli cynlluniau a dogfennaeth gyffredin sy'n ofynnol wrth gyflawni tasgau cyffredin yn y maes crefft hwn, gan gynnwys dogfennau deddfwriaethol perthnasol, asesiadau risg, datganiadau dull, manylebau, lluniadau a chyfarwyddiadau a ddarperir gan wneuthurwyr;
18.5. cynllunio'r gwaith o gwblhau tasgau cyffredin yn y maes crefft hwn, gan ddefnyddio'r sgiliau llythrennedd a rhifedd gofynnol, a'r sgiliau lluniadu, i wneud hynny;
18.6. gosod meini prawf perfformiad ar gyfer cwblhau tasgau cyffredin yn y maes crefft hwn;
18.7. gwerthuso perfformiad eu gwaith wrth gyflawni tasgau cyffredin yn y maes crefft hwn mewn perthynas â'r gofynion penodol a'u meini prawf llwyddiant eu hunain.

Cynllun asesu

19. Rhaid ymdrin â holl gynnwys y pwnc yn yr asesiadau dros oes y fanyleb.

20. Asesir y Sylfaen mewn Peirianneg Adeiladu a Gwasanaethau Adeiladu trwy asesiad mewnol ac allanol fel yr amlinellir isod:

Asesiad 1 Asesiad ar y sgrin
Cwmpas
Rhaid i'r asesiad ar y sgrin asesu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o elfennau o'r cynnwys o feysydd dysgu 1-6.
Gofynion
Rhaid i'r asesiad gael ei gymryd o dan amodau a amlinellir gan y corff dyfarnu; rhaid iddo gael ei asesu'n allanol a rhaid sicrhau ei ansawdd. Rhaid cynnal yr asesiad heb fynediad at ddeunydd cyfeirio; rhaid iddo gynnwys ystod o eitemau

wedi'u marcio'n awtomatig; rhaid iddo gynnwys ychwanegiadau sy'n cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i ddeunydd gweledol llonydd neu ddelwedd symudol; rhaid iddo gyfrif am 20% wrth gyfrifo'r radd gyffredinol.

Asesiad 2	Prosiect ymarferol
Cwmpas	
Rhaid i'r prosiect ymarferol asesu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth dysgwyr o elfennau o feysydd dysgu 2, 4, 5, 7 ac 8. Rhaid i'r prosiect ymarferol ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ymgymryd ag un neu fwy o brosiectau ymarferol mewn amgylchedd efelychiadol. Bydd yn rhaid i ddysgwyr gynllunio'r prosiect, cyflawni'r elfen ymarferol a gwerthuso'r dulliau a gymerasant tuag at gwblhau'r prosiect ac ansawdd y canlyniadau.	
Gofynion	
Rhaid i'r asesiad gael ei gymryd o dan amodau a amlinellir gan y corff dyfarnu; bydd yn rhaid ei asesu'n fewnol a sicrhau ei ansawdd yn allanol; rhaid ei gwblhau mewn ymateb i frîff a osodwyd gan y corff dyfarnu; rhaid iddo gyfrif am 60% wrth gyfrifo'r radd gyffredinol.	

Asesiad 3	Trafodaeth dan arweiniad
Cwmpas	
Rhaid i'r drafodaeth dan arweiniad asesu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o elfennau o feysydd dysgu 2, 3, 4, 5 a naill ai 7 neu 8: Rhaid i'r drafodaeth dan arweiniad ei gwneud yn ofynnol iddynt fyfyrio ar gwblhau eu prosiect ymarferol yn ei gyfanrwydd ond gan ganolbwyntio ar un maes profiad crefft (i'w ddewis ymlaen llaw gan y dysgwr), yn ogystal â dibyniaethau eu hymarfer ar y rheini sydd mewn crefftau eraill ac ansawdd eu canlyniadau.	
Gofynion	
Rhaid i'r asesiad gael ei asesu'n fewnol a rhaid sicrhau ei ansawdd yn allanol; rhaid iddo fod o hyd penodol a fydd yn cael ei amlinellu gan y corff dyfarnu a'i gymryd o dan amodau a amlinellir gan y corff dyfarnu; rhaid i'r asesydd ofyn ystod o gwestiynau strwythuredig a ddatblygwyd trwy arweiniad gan y corff dyfarnu; rhaid i'r ganolfan rannu gyda dysgwyr, cyn yr asesiad, y pynciau y byddant yn cael eu holi arnynt; rhaid iddo gyfrif am 20% wrth gyfrifo'r radd gyffredinol.	

21. Bydd yr asesiadau yn debyg o ran pa mor anodd y maent ar gyfer pob dysgwr, waeth beth yw'r profiadau crefft a brofir ym meysydd dysgu 7 ac 8.

22. Rhaid defnyddio cymysgedd o fathau o gwestiynau yn asesiadau 1 a 3.

23. Rhaid i gynlluniau marciau asesiadau nodi sut mae'r marciau sydd ar gael ar gyfer pob cwestiwn neu dasg asesu yn cysylltu â chynnwys y pwnc.

24. Rhaid i gyfleoedd asesu ar gyfer y Sylfaen mewn Peirianneg Adeiladu a Gwasanaethau Adeiladu fod ar gael ar sail galw.

25. Rhaid i'r corff dyfarnu nodi ei reolau mewn perthynas ag ail-eistedd ac ail-gyflwyno.

Canlyniadau

26. Rhaid i'r fanyleb ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr fodloni sgôr trothwy ym mhob asesiad i dderbyn Llwyddo neu'n uwch ar gyfer y cymhwyster.

27. Rhaid i ddysgwyr sy'n cwblhau'r holl asesiadau gofynnol yn llwyddiannus gael eu graddio a'u hardystio gyda naill ai Llwyddo, Teilyngdod, Rhagoriaeth.

Cyflwyno cymwysterau i'w cymeradwyo

28. Wrth gyflwyno cymhwyster i Cymwysterau Cymru i'w gymeradwyo, rhaid i'r corff dyfarnu ddarparu dogfen fanyleb, deunyddiau asesu enghreifftiol ar gyfer pob uned / cydran, a dogfen esboniadol yn amlinellu'r rhesymeg dros nodweddion allweddol y cymhwyster arfaethedig (dogfen resymeg).

Gofynion y rhesymeg

29. Pwrpas y ddogfen resymeg yw cefnogi proses adolygu a chymeradwyo'r cymhwyster ac ni fwriedir iddi gael ei chyhoeddi.

30. Bydd yn ofynnol i gyrff dyfarnu esbonio'r ffyrdd y mae'r cynllun asesu yn cydbwyso ystyriaethau hydrinedd, ymgysylltiad, dibynadwyedd a dilysrwydd. Rhaid i'r rhesymeg roi tystiolaeth i gyfiawnhau sut mae'r fanyleb yn sicrhau:

- bod y trefniadau asesu, ar y cyfan, yn hylaw ar gyfer canolfannau a dysgwyr;

- bod y trefniadau asesu, ar y cyfan, yn ddigon deniadol i ddysgwyr ac yn hyrwyddo diddordeb dysgwyr yn y maes pwnc;

- bydd y trefniadau asesu yn sicrhau dibynadwyedd y canlyniadau asesu, ar lefel canolfannau a chenedlaethol a thros amser;

- bod y trefniadau asesu yn fath dilys o asesiad ar gyfer y sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sy'n cael eu hasesu.

31. Rhaid i'r ddogfen resymeg hefyd gynnwys esboniad am:

    31.1. strwythur y cymwysterau, gan esbonio'r rhesymau dros y ffordd y mae'r cynnwys wedi'i strwythuro;
    31.2. y dull o ymdrin â chynnwys dros amser ar gyfer asesiadau mewnol ac allanol (gan gynnwys manyleb y prawf asesu allanol);
    31.3. y strwythur asesu, gan gynnwys nifer, pwysiad, dyraniad marciau a hyd unedau / cydrannau asesu;
    31.4. dylunio a chymhwyso cynlluniau marcio;
    31.5. sut y bydd yr asesiad allanol yn cael ei ddarparu ar sail galw;
    31.6. sut mae'r amodau a osodwyd ar gyfer yr asesiadau yn arwain at ganlyniadau dibynadwy ac yn briodol ar gyfer pob lleoliad;
    31.7. y prosesau a ddefnyddir i osod a chynnal safonau yn yr asesiadau;
    31.8. y broses ddylunio a ddefnyddir i ddyfarnu'r cymhwyster, gan gynnwys rhesymeg dros y trothwyon arfaethedig ar gyfer pob un o'r asesiadau a'r ffiniau arfaethedig ar gyfer y cymhwyster yn gyffredinol.

Gofynion gweithredol

32. Rhaid i'r fanyleb nodi'r gofynion gwybodaeth a chymhwysedd ar gyfer yr aseswyr, y swyddogion mewnol sy'n sicrhau ansawdd a'r swyddogion allanol sy'n sicrhau ansawdd.

33. Rhaid i fanyleb y cymhwyster gynnwys manylion penodol am ofynion gweithredol, gan gynnwys:

    33.1. niferoedd sy'n cofnodi / cofrestriadau
    33.2. sicrhau ansawdd;
    33.3. prosesau asesu.